

Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Hydref	7	Cymundeb Parchg Hywel Wyn Richards
	14	Cwrdd Undebol yr hydref Parchg Hywel Wyn Richards Casgliad at yr Adeiladau
	21	Gwasanaeth Diolchgarwch Aelodau
	28	– Parchg Jeff Williams
Tachwedd	4 -	Cymundeb Parchg Hywel Wyn Richards
	11	Miss Eirwen Richards
	18	Parchg Hywel Wyn Richards
	25	Parchg Gerwyn Jones
Rhagfyr	2	Cymundeb Parchg Hywel Wyn Richards (Cinio Nadolig y Capel)
	9	Parchg Hywel Wyn Richards
	16	Gwasanaeth Nadolig Aelodau
	23	Parchg Hywel Wyn Richards
	25	Dydd Nadolig Cymundeb am 9.30 Parchg Hywel Wyn Richards
	30	Miss Eirwen Richards



Tabernacl Porthcawl

HYDREF 2018

Annwyl Chwirydd a brodyr yng Nghrist, braint yw cael eich cyfarch eto ar ran y swyddogion.

Mae hi'n dymor cyrddau diolchgarwch am y cynhaeaf eto a bydd capeli'r wlad yn brysur yn dewis pregethwyr ar gyfer eu cwrdd diolchgarwch hwythau. Y mae dwy stori rwy'n hoff ohonynt am gyrddau ddiolchgarwch. Y mae un yn sôn am Charles Dickens yn cael gwahoddiad i siarad mewn cwrdd diolchgarwch yn America. Gŵyl genedlaethol yw honno wrth gwrs. Rydych chi wedi gwneud camgymeriad arall *eto*, meddai wrth y gynulleidfa; rydych chi wedi dewis un diwrnod arbennig i ddweud diolch am eich gwaredigaeth. Dylech chi fod wedi dewis un diwrnod i gwyno ac achwyn a gallech ddefnyddio gweddill y flwyddyn i ddiolch, meddai.

Stori am gwrdd eglwys yn cael ei alw mewn rhyw eglwys yng nghefn gwlad yw'r llall, i ddewis pregethwr ar gyfer y Cwrdd Diolchgarwch am y cynhaeaf. Gwylltiodd rhyw ffermwr bach yn y cefn. Y nefoedd wen, meddai, dim ond canol mis Awst yw hi. Gadewch inni gael y cynhaeaf mewn i ddechrau, gallwn ni ddiolch amdano wedyn. Rwy'n deall beth oedd gan yr hen foi ond ffermwr go wael oedd e hefyd os nad oedd e'n credu yn y cynhaeaf.

A beth amdanom ni yn y capeli a'r eglwysi? Ydyn ni'n credu yn y cynhaeaf? Y cynhaeaf ysbrydol pan fydd Duw yn dwyn ei waith i ben. Yn efengyl Mathew, darllenwn am Iesu yn tosturio wrth y tyrfaoedd o'i gwmpas - yr oeddent 'fel defaid heb fugail'. 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr, meddai, 'Ond y mae'r gweithwyr yn brin; deisyfych felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf' (Mathew 9:38 BCN). O edrych ar y byd heddiw, y mae sefyllfa druenus y tyrfaoedd heb fugail a'u bywydau heb ystyr cynddrwg ag a fu erioed. Wrth weddio am weithwyr i'r cynhaeaf, wrth gwrs, mae'n bosib y sylweddolwn ni mai ni ein hunain yw'r ateb i'r weddi hon. A fyddwn ni yn rhan o lu waith Duw a ddaw â'r cynhaeaf i'r ydian dragwyddol maes o law? Does dim galw am bethau mawr, syfrdanol, ond y mae galw am ffydd yn Nuw y cynhaeaf a'n bod ni'n gallu gwneud gwahaniaeth.

Ti, Arglwydd, fu'n dywysydd, ar hyd blynyddoedd oes, yn gwmni ac yn gysur, a'th ysgwydd dan ein croes:

Diolchwn am bob bendith fu'n gymorth ar y daith,
anoga ni o'r newydd i aros yn dy waith.

(DENZIL IEUAN JOHN).

Yr eiddoch yng ngwasanaeth y Meistr Mawr,
Gerwyn

Adroddiad o'r Cwrdd eglwys cynhaliwyd ar Fore Sul 30ain Medi
Yn ein Cwrdd Eglwys gynhaliwyd bore Sul 30ain Medi cytunwyd ar
yr argymhellion canlynol fel sail i greu Gofalaeth Newydd rhwng
Tabernacl Porthcawl a Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r bwriad
o sefydlu Gweinidog llawn amser i'w rannu rhwng y ddwy eglwys.

1. Gan mai eglwysi cynulleidfaol yw'r ddwy Eglwys, byddwn yn
parhau i fod yn eglwysi Annibynnol o'n gilydd ond bod
Gofalaeth Newydd yn galluogi'r ddwy Eglwys i rannu
gweinidog amser llawn.
- 2 Bydd cost cynnal Gweinidog yn cynnwys
 - Y gydnabyddiaeth, sef cyflog y gweinidog
 - Cyfraniad yswiriant cenedlaethol
 - Costau teithio
 - Lwfans tŷ NEU brynu mans

Hefyd mae'r ddwy Eglwys yn cytuno i ganiatáu deuddeg Sul y
flwyddyn yn Suliau rhydd i'r gweinidog i'w defnyddio yn ôl ei dewis/
ddewis ei hunan (y rhain i gynnwys gwyliau personol).

3. Bydd y gost o gynnal y gweinidog yn cael ei rannu yn ôl nifer
yr aelodau sydd yn y ddwy eglwys.

e.e. yn 2017 roedd aelodaeth Tabernacl Porthcawl yn 72 a
Tabernacl Pen-y-bont 166.

Felly byddai cost y weinidogaeth yn cael ei rannu gyda $72 + 166 = 238$


Pe bai cost y weinidogaeth yn £35,000 yna y gost i bob aelod
fyddai

$\frac{£35,000}{238} = £147$ i bob aelod

Byddai'r gost i'n capel ni yn $£147 \times 72 = £10,584$ y
flwyddyn

Byddai'r gost i Tabernacl Pen-y-bont yn $£147 \times 166 =$
 $£24,402$

(Cofiwch enghraifft yw hyn yn unig).



Y tri cyn Ysgrifenyddion gyda'r
Ysgrifennydd newydd.

Parchg Ddr Geraint Tudur,
Parchg Derwyn Morris Jones
Parchg Dyfrig Rees
Parchg Dewi Myrddin Hughes

Dyma'r rhai oedd yn cymryd
rhan yn y gwasanaeth -

Parchg Robin Samuel,
Parchg Ddr Geraint Tudur,
Parchg Jill-Hailey Harries,
Mrs Mandy Rees,
Parchg Dyfrig Rees
Mr Dafydd Roberts
Mrs Sian Stoodley,
Ms Elinor Wyn Reynolds
Miss Ann Williams,



Cyfarfod Sefydlu
Parchg Dyfrig Rees
yn Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr

Pleser oedd cael mynychu'r gwasanaeth i sefydlu'r Parchg Dyfrig
Rees yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr yng
nghapel y Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr ar nos Fercher 3ydd o
Hydref. Dymuniadau gorau iddo.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchg Jill-Hailey Harries, Llywydd
Undeb yr Annibynwyr. Traddodwyd y bregeth gan y Parchg Ddr
Geraint Tudur. Defnyddiodd hanes Iesu yn Cerdded ar y Dŵr
allan o Mathew 14: adnodau 22—33 i'n herio i fentro allan i geisio
cyflawni rywbeth newydd ac i beidio ofni methu gan bydd Iesu
yno i'n cynorthwyo bob cam o'r ffordd. Braint oedd cael bod yno i
wranddo ar ei eiriau.

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn y YMCA ar nos Fawrth 11eg Medi. Gwnaed y trefniadau ar gyfer gosod y presebau yn eu lle ar gyfer y Nadolig ac fe baratwyd ar gyfer cyfarfodydd yn y flwyddyn newydd.

OEDFA NADOLIG Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Cynhelir Oedfa Nadolig y Gymdeithas Gymraeg am 3.00 o'r gloch prynhawn Sul Rhagfyr yr 16eg. Croeso cynnes i bawb.

CAROLAU YNG NGOLAU CANNWYLL

Rydym yn gobeithio cynnal y noson boblogaidd hon unwaith eto eleni. Cewch fwy o fanylion wedi i'r trefniadau gael eu gwneud.

OEDFA GAROLAU ADRAN/AELWYD YR URDD

Bydd yr oedfa yma Nghapel y Tabernacl ar Nos Fercher Rhagfyr 19eg am 6.00 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

BORE COFFI DYSGWYR

Mae'n anodd cofio mor bell yn ôl a dechreuad y Boreau Coffi ond maent wedi cael eu cynnal yn ddi-dor ar y Sadwrn Cyntaf o bob mis dros beth bynnag 10 mlynedd. Rhaid diolch i'r gwirfoddolwyr sydd yn coginio cacennau ac yn troi i fyny yn fisol i baratoi paned ac i sgwrsio gyda'r dysgwyr. Gallaf eich sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg mewn awyrgylch gartrefol anffurfiol. Os oes gennych awr neu ddwy yn rhydd ar y bore Sadwrn cyntaf yn y mis yna dewch i'r dysgwyr gael dod i arfer ag acenion o bob rhan o Gymru.

Cynhelir y Bore Coffi nesaf ar fore Sadwrn 3ydd Tachwedd rhwng 10.30 a 12.00.

4. Cyfaddawd yw'r drefn gyntunwyd arno ar gyfer trefn y Suliau.
Pan fydd 4 Sul yn y mis bydd y Gweinidog yn –
Cael un Sul i ffwrdd
Yn Tabernacl Porthcawl am un Sul
Yn Tabernacl Pen-y-bont am ddau Sul

Mae'r drefn pan fydd 5 Sul yn y mis i'w drafod gyda'r gweinidog newydd.

Gan fod y ddwy eglwys wedi cytuno ar y trefniadau cychwynnol yma, mewn Cwrdd Eglwys, byddwn nawr yn symud ymlaen i'r cam nesaf, sef rhoi cyhoeddiad yn y Tyst ein bod wedi creu Gofalaeth Newydd a'n bod yn awyddus i benodi Gweinidog Amser Llawn ar gyfer y ddwy Eglwys.

Tom Price

CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Robert ac Amanda Murray gan i Amanda golli ei thad yn ystod y misoedd diwethaf. Bu i Amanda dreulio rai wythnosau yn edrych ar ôl ei thad yn ei waeledd. Estynnwn yr un cydymdeimlad hefyd i Ann, Karl a'r teulu yn ei colled o golli mam sef Mrs. Barbara Jones. Roedd Barbara wedi ymgartrefu yn Stoneleigh Court ar ôl symud o Ash Grove yn Danygraig. Yn anffodus roedd wedi bod yn fregus iawn ei hiechyd wedi symud ond cafodd ofal arbennig gan Ann a'r teulu a'r gofawyr. Bu Barbara ac Ifan yn ffyddlon yn y Tabernacl am nifer o flynyddoedd a bu hi yn athrawes ysgol Sul am gyfnod. Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Mercher Hydref 3ydd yn y capel gyda'r Parchg Hywel Wyn Richards yn gwasanaethu.

YSBYTY

Estynnwn ein dymuniadau gorau i rai o'r aelodau sydd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnodau yn ystod y misoedd diwethaf. Hyderwn eu bod yn mwynhau gwell iechyd erbyn hyn. Cofiwn am bawb sydd yn dioddef mewn unrhyw ffordd a gweddiwn y bydd Duw yn nerth ac yn gwmni iddynt beth bynnag eu hangen.

LLONGYFARCHIADAU

Pob dymuniad da ar ran yr Eglwys i Jennifer a Robert Stephens a Mairwen a Gareth Evans wrth iddynt fod wedi dathlu Penblwydd Priodas Aur yn ystod y misoedd diwethaf. Bydded iddynt fwynhau blynyddoedd eto o fywyd priodasol

Estynnwn ein dymuniadau gorau i ieuenctid yr eglwys a fu'n

Ilwyddiannus mewn gwahanol arholiadau, academiaidd a cherddorol. Dymunwn yn dda iddynt wrth iddynt ddechrau swyddi newydd, astudio mewn colegau neu parhau eu addysg yn yr ysgol.

Rydym ar ddeall fod Lewis Murray wedi ei ddewis yn lywydd Cymdeithas Gerdd yn y Coleg yn Belfast. Pob dymuniad da iddo.

Diolch i'r rhai hynny fu ar gael ac yn barod i gymryd rhan mewn oedfa yn ystod mis Awst. Roedd yn hyfryd i gael eu cwmni a manteisio ar eu doniau. Diolch i'r aelodau hynny a roddodd yn hael at gasgliad a wnaed yn yr Eglwys i helpu Lleucu yn ei hymdrech i godi arian tuag at helpu Alfie y bachgen sydd a chymaint o anghenion arbennig.

ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD

Bydd yr astudiaethau wedi dechrau ar Brynhawn Dydd Llun Hydref yr 1af am 2.00 o'r gloch ac i barhau yn wythnosol hyd y Nadolig.

SWPER CYNHAEAF

Daeth nifer fawr ohonom at ein gilydd i fwynhau swper Sglodion a Pysgod ym mwyty Beale's ar Nos Iau Hydref 4ydd. Er mwyn codi archwaeth at y bwyd ac i bawb gael amser i gyrraedd roedd Derek wedi paratoi cwis cyflym ar ein cyfer. Wedi mwynhau prydiau bwyd blasus cafwyd cwis arall a oedd beth yn anoddach. Teulu y Murray's oedd yn fuddugol ac wedi medru ateb nifer sylweddol o'r cwestiynau. Offrymwyd y Gras cyn bwyd gan y Parchg Gerwyn Jones gyda y Parchg Hywel Wyn Richards yn cynnig y diolchiadau a'r Gras ar ddiwedd y noson. Noson hyfryd arall o gymdeithasu dros fwyd. Diolch i Derek am drefnu unwaith yn rhagor yn ei ffordd arbennig ac am baratoi cwis arall eto i hodi ein hymennydd. Diolch am gwmni ffrindiau ddaeth i ymuno â ni ac i staff y bwyty am eu gofal drosom.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Bydd Cwrdd Diolchgarwch y capel yng ngofal rhai o'r aelodau ar fore Sul Hydref 21 ain.

CINIO NADOLIG

Bydd y cinio yng ngwesty yr Atlantic ar Ddydd Sul Rhagfyr yr 2il.

GWAITH CYNNAL A CHADW

Fel pob blwyddyn mae gwaith cynnal a chadw i'w wneud ar y capel. Yn anffodus mae rhan o'r bloc concret ar y man uchaf uwchben y drws ffrynt y capel wedi dechrau chwalu. Diolch i Eurof Davies am wneud y gwaith trwsio ar ein rhan ond o achos yr uchder mae'n rhaid cael sgaffaldau.

Problem arall mae Eurof am ddatrys i ni yw'r panel pren sydd rhwng y neuadd a'r tŷ drws nesaf. Yn anffodus mae aer y môr Porthcawl wedi rhydu'r bracedi sydd yn dal y pyst yn eu lle ac mae rhaid eu newid.

Erbyn hyn mae ein neuadd yn 10 oed. Rydym yn barod wedi ei ail phaentio a nawr mae problem wedi datblygu gyda'r sustem wresogi'r fydd yn rhaid ei wneud cyn y gaeaf.

Rydym hefyd wedi gorfod cywiro ambell i beth trydanol oedd yn ddiffygiol.

Mae'n bwysig ein bod yn cywiro unrhyw broblemau rydym yn darganfod cyn gynted ag sydd modd neu bydd y diffygion yn pentyrru.

Diolch i Tom am y gwaith mae yn gwneud i sicrhau fod y problemau sy'n codi gyda'r adeiladau yn cael sylw ganddo neu yn sicrhau fod yna weithiwr yn cael eu galw yn ôl yr angen.

OPERATION CHRISTMAS CHILD

Mae y Nadolig yn brysur nesau ac yn amser meddwl am lenwi bocsys sgidie ar gyfer eu danfon i blant ar draws y gwledydd sydd ond yn derbyn beth mae yr elusen yma yn dosbarthu. Cewch fwy o fanylion am ddyddiad pryd y cesglir y bocsys ond ewch ati i gasglu eitemau yn barod. Diolch am eich cefnogaeth a diolch i Rhiannon am drefnu.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Rydym yn dymuno'n dda i'r Parchg Dyfrig Rees, cyn weinidog capel y Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysgrifennydd y Cyfundeb, sydd erbyn hyn wedi dechrau ar ei swydd newydd fel Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr yn Tŷ John Penri.

Yng nghyfarfod o'r Cyfundeb gynhaliwyd yng Nghapel Minny Street, Caerdydd nos Fercher 26ain Hydref cawsom gyflwyniad ar apêl Undeb yr Annibynwyr eleni i Madagascar. Elenid Jones a'r Parchg Robin Samuel oedd ein siaradwyr. Bydd cyfle ar ddydd Sul 13eg Ionawr i wrando ar gyflwyniad y Parchg Robin Samuel. Bydd yn dangos lluniau ac yn egluro cefndir y pedwar elusen fydd yn derbyn cefnogaeth.

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL

Fel eglwysi rydym yn ddyledus iawn i'r Parchg Teddy Kalongo, Llywydd, Rosalie Maddy, Ysgrifennydd a Martin Bale, Trysorydd am y gwaith maent yn ei wneud ar ein rhan.